



Sut mae Wystrys yn Hidlo Dŵr Budr

Yr offer sydd ei angen (fesul grŵp)

- Copi o'r daflen waith 'Sut mae Wystrys yn Hidlo Dŵr Budr', un i bob grŵp
- Cynhwysydd gwag (dim mwy na 300ml)
- Oregano (i gynrychioli algâu)
- Nionyn sych (i gynrychioli malurion a deunydd rhydd arall)
- Grawn pupur (i gynrychioli gwaddod)
- Llwy de
- Twndis
- Cynhwysydd gwag (dros 300ml)
- Hidlydd coffi

I gwblhau'r gweithgaredd

1. Rhannwch y fideo treigl amser 'Oysters Clean the Bay!' gyda'r dysgwyr – www.tiramor.cymru/wystrysbrodorol (Adnodd 1). Mae'r fideo yn dangos sut gall wystrys glirio dŵr cymylog dros 5 awr. Mae hyn yn gosod y cyd-destun ar gyfer deall eu rôl mewn ecosystemau. Mae wystrys yn bwyta'r algâu (sy'n mynd i'r perfedd) ac yn ysgarthu gwastraff go iawn a ffug-garthion, sef gronynnau o bethau nad ydynt yn fwyd (llaid, microblastigau...). Maent yn hynod o effeithlon am wneud hyn, lle mae anifeiliaid eraill yn mygu oherwydd tagu eu tagellau.

2. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y canlynol:

- Pam fod dŵr glân a chlr yn bwysig i anifeiliaid morol?
- Sut y gallai dŵr budr effeithio ar allu anifeiliaid i anadlu?
- Pa effaith y gallai dŵr budr ei chael ar olau'r haul yn cyrraedd planhigion morol?
- Sut mae wystrys yn helpu i lanhau'r dŵr?
- Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd os oes gormod o falurion neu lygredd yn y dŵr?

3. Rhowch daflen waith 'Sut Mae Wystrys yn Hidlo Dŵr Budr' ac offer angenrheidiol i bob grŵp.

4. Ar ôl cwblhau camau 1-5, anogwch y dysgwyr i arsylwi a thrafod sut mae'r dŵr budr yn edrych ar ôl cymysgu'r cynhwysion?

5. Gofynnwch i bob grŵp ragweld sut y gallai wystrys lanhau'r dŵr 'budr'.

6. Cefnogwch bob grŵp i ddilyn y camau nesaf i greu wystrys eu hunain allan o hidlydd coffi.

7. Cefnogwch y dysgwyr i osod eu hidlydd coffi yn y twndis. Cyn iddynt dolti'r dŵr budr trwy'r hidlydd, atgoffwch y dysgwyr i beidio â defnyddio llwy i wthio hylif trwyddo, gan y gallai rwygo'r hidlydd.

8. Ar ôl hidlo, anogwch y dysgwyr i drafod pa mor lân yw'r dŵr ar ôl mynd trwy'r hidlydd. Beth gafodd ei dynnu'n hawdd? Pam ei fod yn lanach? Anogwch y dysgwyr i ystyried os yw popeth wedi'i dynnu? Beth am organebau sy'n rhy fach i'w gweld a'r rhai sydd wedi hydoddi?

9. Gofynnwch i bob grŵp ystyried sut mae'r arbrawf yn dangos y modd mae wystrys yn hidlo dŵr ym myd natur. Myfyriwch ar gyfyngiadau'r hidlydd a'r heriau y gallai wystrys eu hwynebu mewn dŵr llygredig iawn.

Sut mae Wystrys yn Hidlo Dŵr Budur



Byddwch angen

- Cynhwysydd gwag (dim mwy na 300ml)
- Oregano (i gynrychioli algâu)
- Grawn nionyn sych (i gynrychioli malurion a deunydd rhydd arall)
- Grawn pupur (i gynrychioli gwaddod)
- Llwy de
- Twndis
- Cynhwysydd gwag (dros 300ml)
- Hidlydd coffi

1. Ychwanegwch 1 llwy de o oregano i'r cynhwysydd.

Mae hyn yn cynrychioli algâu, planhigion bach sy'n byw yn y dŵr.

2. Ychwanegwch 1 llwy de o nionod sych i'r cynhwysydd.

Mae hyn yn cynrychioli malurion, fel darnau bach o blanhigion sydd wedi torri i lawr a gwastraff anifeiliaid.

3. Ychwanegwch 1 llwy de o rawn pupur i'r cynhwysydd.

Mae hyn yn cynrychioli gwaddod, sy'n cynnwys darnau bach o greigiau wedi torri i lawr.

4. Llenwch y cynhwysydd hanner ffordd gyda dŵr tap.

Mae hyn yn cynrychioli'r dŵr mewn bae neu afon.

5. Cymysgwch bopeth gyda'ch llwy de.

Rydych wedi creu eich 'dŵr budr'!

6. Rhowch y 'dŵr budr' i un ochr.

7. Crëwch eich 'wystrys' eich hun trwy blygu'r hidlydd coffi yn ei hanner; yna'i blygu yn ei hanner eto.

8. Gosodwch yr hidlydd coffi mewn twndis dros y cynhwysydd gwag sydd ar ôl.

9. Arllwyswch y gymysgedd 'dŵr budr' yn araf drwy'r hidlydd.

10. Trafodwch pa mor lân yw'r dŵr ar ôl mynd trwy'r hidlydd.

TRAFOD

Pam mae'r dŵr yn lanach? Sut mae hyn yn berthnasol i sut mae wystrys yn hidlo dŵr mewn natur?



Er bod wystrys yn cael eu hadnabod am greu perlau, anaml y mae'r wystrys brodorol Ewropeaidd yn creu perlau.

hidlydd
twndis

cynhwysydd

